

## **Cyngor Cymuned Llanelian (328)**

Cofnodion cyfarfod Hydref 6 2020 a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo am 7yh.

**Presennol:** Elfyn Hughes, Dafydd Griffiths, John Griffiths, Glenys Jones, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Ian Evans, Thomas Jones, Hefina Williams, Arfon Morgan, Cyng. Aled Morris Jones, Mr Aaron Bayley (Ysgol Gynradd Penysarn), Carli Evans Thau (Clerc)

**Ymddiheuriadau:** Helen Hughes, Cyng. Richard Jones, Cyng. Richard Griffiths

### **1 Croeso**

Cadeirwyd y cyfarfod gan Elfyn Hughes ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol.

### **2 Datgan Diddordeb**

Glenys Jones – Cylch Meithrin Penysarn  
Ian Evans – Llwybrau

### **3 Mr Aaron Bayley – Ysgol Gynradd Penysarn**

Croesawyd Mr Bayley i'r cyfarfod. Er ei fod yn brifathro Ysgol Syr Thomas Jones, mae hefyd wrth y llyw dros dro ym Mhenysarn am ddau dymor. Cafwyd grynodedd ganddo o'r gweithgareddau yn yr ysgol wrth i'r plant a staff ddychwelyd. Cadarnhaodd mai ei weledigaeth ar gyfer y cyfnod oedd plant hapus a sefydlogrwydd i gymuned yr ysgol.

Cafwyd wybod bod y tim o fewn i'r ysgol yn gweithio'n galed iawn i sicrhau bod y plant yn cael profiadau, hwyl a dysgu drwy weithgareddau a hynnu heb ymweliadau nac ymwelwyr i'r ysgol. Cadarnhawyd nad oedd y plant yn cael gwersi nofio ar hyn o bryd oherwydd y risg ychwanegol o deithio plant mewn bysiau a chymlethdodau trefniadau yn y ganolfan oherwydd covid-19. Mae pwyslais ar ddiogelwch staff a disgyblion ynghyd a'r gymuned gyfan.

Cafwyd wybod bod holl ddisgyblion yr ysgol wedi dychwelyd erbyn hyn, a bod rhai plant newydd wedi eu croesawu i'r cyfnod sylfaen.

Soniwyd am ddigwyddiadau cymunedol a'r effaith mae covid-19 wedi ei gael ar galendr yr ysgol. Trafodwyd Sul y Cofio gan gadarnhau byddai'r ysgol yn gwneud trefniadau eu hunain i ymweld a'r gofeb oherwydd y sefyllfa bresennol a covid-19.

Cafwyd wybod am fwriad yr ysgol i gynnal cystadleuaeth pobi ar them calan gaeaf cyn gwyliau hanner tymor fydd yn rhywbeth teuluol i gymuned yr ysgol gymryd rhan. Cafwyd wybod na fyddai posib cynnal cyngerdd Nadolig eleni ac felly bod cynlluniau ar y gweill am brosiect creadigol fydd i'w rannu gyda'r gymuned ehangach.

Trafodwyd diogelwch ffordd tu allan i'r ysgol, fel prifathro newydd i'r safle, mae Mr Bayley wedi adnabod yr un pryderon eto sef y palmant a'r nifer o gerbydau a'r ffaith nad oedd posib cadw pellter cymdeithasol wrth gasglu plant o'r ysgol ddiwedd pwn. Bwriadai Mr Bayley gysylltu a CSYM i dynnu sylw, ond wrth bwysleisio diogelwch plant gyda'r adran addysg yn hytrach na diogelwch ffyrdd gyda'r adran briffyrdd. Cadarnhawyd bod parth 20mya ar y gweill a gobeithir bydd arwyddion yn ei lle o fewn y mis nesaf. Nododd Mr Bayley ei fod yn gefnogol o gamau i ddiogelu plant yn cerdded i'r ysgol gan bwysleisio bod angen magu annibyniaeth.

Diolchwyd i Mr Bayley am ymuno a'r cyfarfod i gyflwyno ei hun a'i barodrwydd i gydweithio a'r gymuned er lles plant y pentref.

### **4 Penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd**

Gan na chynhaliwyd cyfarfod blynyddol ym mis Mai 2020, bu penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd hyd Mai 2021. Nododd Elfyn Hughes nad oedd yn bwriadu sefyll yn gadeirydd mwyach a diolchodd i'r aelodau am gydweithio ag o ac am eu cefnogaeth, yn enwedig yn ystod y cyfnod anodd yma wrth ymdrin a covid-19.

Cynnigwyd Ian Evans yn gadeirydd, cynnig Elfyn Hughes, cefnogwyd yn unfrydol. Bu i Ian

Evans gymryd y gadair. Diolchwyd i Elfyn Hughes am ei waith ddi-flino tra yn y gadair.

Nodwyd nad oedd angen penodi is-gadeirydd yn gyfreithiol, ond tra bod Ian Evans wedi datgan diddordeb mewn rhai eitemau a bod Carli Evans Thau yn glerc y cyngor, byddai penodi is-gadeirydd yn diogelu'r cyngor, y cadeirydd a'r clerc. Bu'r aelodau gytuno'n unfrydol byddai Elfyn Hughes yn is-gadeirydd nes y cyfarfod blynyddol ym mis Mai 2021

## **5 Cadarnhau Aelodaeth Pwyllgorau a Chynrychiolwyr ar Bwyllgorau Allannol**

### **5.1** Cadarnhawyd aelodaeth y pwyllgorau fel a ganlyn:

Cyllid a Personel – Cadeirydd, Is-gadeirydd, Dafydd Griffiths, Hefina Williams, Glenys Jones

Parciau a Mannau Agored – Cadeirydd, Is-gadeirydd, Carol Whitaker, Gordon Hayes, Hefina Williams

Mynwent - Cadeirydd, Is-gadeirydd, Thomas Jones, Helen Hughes, John Griffiths

Llithrfa – Cadeirydd, Is-gadeirydd, Dafydd Griffiths, John Griffiths, Thomas Jones, cynrychiolaeth aelodau'r cynllyn (4), cynrychiolaeth y gymuned (3) swyddogion CSYM. Cytuno diweddarau'r Cylch Gorchwyl i gynnwys y Cadeirydd a'r Isgadeirydd.

Cronfa Ty Moel Isaf – holl aelodau yn ymddiriedolwyr

Llwybrau – Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd, Dafydd Griffiths, Thomas Jones, John Griffiths, Arfon Morgan

### **5.2** Cadarnhawyd cynrychiolaeth ar bwyllgorau allannol fel a ganlyn:

Llywodraethwyr Ysgol – Glenys Jones

Partneriaeth Gogledd Mon – Dafydd Griffiths, John Griffiths

Wylfa Magnox – Dafydd Griffiths, John Griffiths

Un Llais Cymru – Ian Evans, Hefina Williams

Cynghrair Twrcelyn – Dafydd Griffiths, Arfon Morgan

Fforwm Cyswllt – i'w gadarnhau fesul cyfarfod

## **6 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod 8/9/2020. Cynnig John Griffiths, eilio Glenys Jones.

## **7 Materion yn Codi o'r Cofnodion**

**7.1 Dwr Cymru** – cadarnhaodd Aled Jones ei fod wedi siarad a'r swyddogion perthnasol a bod y corff am anfon peiriannwyr tra bydd arogl yn y pentref er mwyn gallu asesu'r system a dod i wraidd y broblem. Mae angen cysylltu a Dwr Cymru pob tro bydd arogl, cytuno cysylltu ag Aled Jones hefyd fel bod modd iddo gysylltu a'r uwch-swyddogion yn uniongyrchol.

**7.2 Materion Prifffyrdd** – cafwyd ebost gan Alun Roberts yn datgan nad oes posibil cael system unffordd drwy'r pentref. Nodwyd byddai yn trefnu arolygon cyflymder traffig can yn rhannu'r wybodaeth maes o law. Cadarnhaodd hefyd byddai yn trefnu arwyddo parth 20mya o fewn y mis.

Cytuno cysylltu yn ol ag Alun Roberts am ddiweddariad ynglyn ag:

- Llinellau melyn drwy'r pentref
- Palmant yn y sgwar (gyda cefnogaeth Mr Bayley a'r Ysgol Gynradd)
- Adolygu'r gyffordd Allt Nebo/Lon yr Ysgol a blaenoriaethu cerbydau

**7.3 Cyflenwad dwr i Mynwent Bosra** – mae'r Henaduriaeth wedi cadarnhau nad oes ganddynt wrthwynebiad i gael cyflenwad dwr i'r fynwent ond maent am i'r cyngor wneud ymholiadau ynglyn a chostau cyn symud ymlaen.

**7.4 Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion** – cafwyd wybodaeth pellach gan Aled Jones ynglyn ag ymweliad Virginia Crosbie (eitem 6.7.2). Nododd bod Ms Crosbie wedi bod yn

ymweld a phrosiectau yn Amlwch ai fod yntau, ynghyd a'r ddau gynghorydd arall wedi cael gwahoddiad i ymuno a hi wrth ymweld a'r prosiectau. Nodwyd nad Aled Jones oedd wedi trefnu'r cyfarfod. Fe ofynwyd beth gafodd ei drafod ynglyn a'r llithrfa yn Llanelian gan nodi siom yr aelodau eu bod ar ddeall bod cynnigion wedi eu cyflwyno a'u trafod heb gynnwys y Cyngor Cymuned sydd yn gyfrifol am weinyddu'r adnodd. Cadarnhawyd nad oedd Porth Eilian wedi ei gynnwys ar agenda'r diwrnod ond bod ymweliad ar ddiwedd y prynhawn. Diolchwyd i Aled Jones am yr eglurhad gan nodi ei fod yn barod iawn i gydweithio a chefnogi'r Cyngor Cymuned, ac wedi gwneud hynnu ers ei ethol yn 2004.

## **8** **Diweddariadau**

**8.1 Caeau Chwarae** – Cadarnhawyd bod y goliau wedi eu archebu ar gyfer Maes Llwyfo (cronfa TMI), gobeithir eu gosod yn fuan.

Cafwyd bris gan Playquest i drin yr offer coed yn Lon Tyddyn Waen, cytuno yn unfrydol derbyn y pris. Bydd y darnau newydd wedi eu gwneud o blastig ac felly yn hir oes. Bydd y cwmni yn trin y llawr rwber am ddim tra yn trin yr offer chwarae. Cytuno mai'r cyngor fyddai yn talu am y gwaith ac nid cronfa TMI. CT

Nodwyd bod y ffens yn y cae chwarae i weld mewn cyflwr iawn ac nad oedd angen ei newid dim ond ei drin yma ac acw ble bod angen. Cytuno gofyn i D Holdsworth dorri y coed a'r tyfiant yn ol. Cynnig Elfyn Hughes, eilio Gordon Hayes. CT

**8.2 Llithrfa** – Bydd angen trefnu cyfarfod y pwyllgor mis nesaf wedi i'r goriadau gael eu dychwelyd. CT

**8.3 Mynewent** – cadarnhawyd bod y gwaith clirio a chynnal wedi dechrau.

**8.4 Cyllid a Pholisi** – dim wedi cyfarfod

**8.5 Cronfa Ty Moel Isaf (1717-1985)** – cadarnhawyd bod y pwyllgor newydd gwrdd, mae'r cyngor wedi cofrestru gyda Menter Mon ar gyfer cefnogaeth arbennigol i drin y cysgodfannau bws a datblygu adnoddau gwybodaeth newydd. Cadarnhawyd fod yr aelodau (a'c felly yr ymddiriedolwyr) yn hapus a'r prosiectau hyd yma. Ni fu gwrthwynebiad i'r clerc drosglwyddo arian o'r gronfa i'r Cyngor fel bo angen yn ddibynnol ar wariant.

**8.6 Llwybrau** – Bu i Elfyn Hughes gadeirio'r eitem yma gan fod y cadeirydd yn datgan diddordeb. Cafwyd grynoded o'r trafodaethau yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor. Cafwyd ddiweddariad am y cais i ail-gofrestru Llwybr Cadi Rondol. Nodwyd bod y dodrefn ar hyd y llwybr ynghyd a lluniau ohonynt wedi eu cofrestru a'u diweddaru yn 2020 er nad oedd y llwybr ei hun yn ymddangos ar fap. Elfyn Hughes i barhau i gydlynu'r cais. EH

8.6.2 Cymeradwywyd cylch gorchwyl y pwyllgor yn ffurfiol.

**8.7 Pwyllgorau Allannol** –

Nododd Dafydd Griffiths bod cyfarfod Cyngrair Twrcelyn wedi ei ohurio. Nododd hefyd ei fod wedi mynychu cyfarfod Rhandeiliaid Wylfa (Magnox) ble gafwyd ddiweddariad cyffredinol o'r gweithgareddau ar y safle ar hyn o bryd.

Bu i Aled Jones adael y cyfarfod am 20.30.

## **9** **Cynllunio**

**9.1 Ceisiadau** – Daw dau gais at sylw'r aelodau ers y cyfarfod diwethaf:

- 2 Bryn Dulas (HHP/2020/204) – dim gwrthwynebiad

- Bryn Haul (HHP/2020/214) – trafodwyd y cais yn fanwl, cytuno nad oedd gwrthwynebiad mewn egwyddor ond pryder am uchdwr yr adeilad. Os am ganiatau y datblygiad, hoffai'r aelodau i CSYM gynnwys amod 44 sef *'the garage/car park spaces to be provided shall be kept available for the parking of motor vehicles at all times'*

**9.2 Penderfyniadau** – cafwyd wybod am benderfyniadau CSYM fel a ganlyn:

- Caswallon (HHP/2020/178) caniatad
- Castell Maelgwyn (DAG/2020/13) dim angen caniatad
- Cerrig Man (HHP/2020/165) caniatad

Nodwyd bod cais Plot 3 Cerrig Man (FPL/2020/142) wedi ei dynnu yn ol.

**9.3 Gorfodaeth** – Nid oes diweddariad pellach gan yr adran gynllunio am yr achosion gorfodaeth.

**9.4 Cais am Arweiniad** –

Nodwyd ymateb Dewi Jones i'r cais am arweiniad ynglyn a cheisiadau cynllunio. Roedd yr ebost wedi ei gylchredeg i'r aelodau drwy ebost.

Nodwyd bod cais Tyn Lon ger bron pwyllgor cynllunio CSYM yfory ond nad oedd posib gwyllo'r cyfarfod yn fyw na mynychu. Roedd Dafydd Griffiths wedi paratoi llythyr sef yr hyn oedd am ei ddatgan yn y cyfarfod; cadarnhaodd bod copi wedi ei anfon at Richard Jones a'r swyddogion perthnasol.

**10 Materion Ariannol**

**10.1 Taliadau**

- Cymeradwywyd y taliadau canlynol –
- £342.92 cyflog
- £213.60 costau clerch Gorff-Medi
- £200.00 DA Holdsworth (cae chwarae)
- £120.00 Gwaith Cerrig Beddi (diogelu carreg)
- £684.00 Gwaith Cerrig Beddi (plac TMI)
- £11,538.24 Sportsafe UK (goliau TMI)
- £200.00 DA Holdsworth (cae chwarae)

Nododd y clerch ei bod wedi trosglwyddo £3538 o gyfrif Beddi TMI sef costau giat y fynwent, a'i bod hefyd wedi trosglwyddo £9615.20 o gyfrif Cyffredinol TMI sef taliad cyntaf y goliau (heb law). Ni fu gwrthwynebiad.

**10.2 Ceisiadau am Arian**

10.2.1 Derbyniwyd cais gan Cylch Meithrin Penysarn am gyfraniad tuag at adnoddau celf. Bu i Glenys Jones ddatgan diddordeb. Wedi trafodaeth cytuno cyfrannu £100 cynnig Hefina Williams, eilio John Griffiths. Cytuno nad oedd gwrthwynebiad i'r mudiad gyflwyno cais arall cyn diwedd y flwyddyn ariannol. CT

10.2.2 Cafwyd grynoded gan y clerch am gystadleuaethau Calan Gaeaf sef dylunio pwmpen (5 dosbarth) ac addurno ty neu ffenest. Nodwyd bod Hefina Williams wedi diogelu £50 tuag at y gwobrau ac felly na fyddai unrhyw gost i'r Cyngor. byddai'r cystadleuthau yma yn agored i'r gymuned gyfan. CT

10.2.3 Ymhellach i'r sgwrs gyda Mr Bayley, cytuno cyfrannu £100 i'r ysgol tuag at gynnal cystadleuaeth cogenio Calan Gaeaf a gweithgareddau Nadolig. Cynnig Dafydd Griffiths, eilio Hefina Williams, pawb yn cytuno. CT

**10.3 Adroddiad Chwarterol**

Cadarnhawyd bod yr adroddiad yn dangos incwm a gwariant y cyngor dros y chwe mis diwethaf wedi ei anfon i'r aelodau drwy ebost cyn y cyfarfod. Derbyniwyd y ddogfen.

**10.4 Archwiliad**

Cafwyd wybod nad oedd yr archwiliad wedi ei gwblhau erbyn diwedd Medi yn ol yr arfer. Roedd hyn oherwydd covid-19; nodwyd bod unrhyw gwestiynnau pellach wedi eu hateb a bod disgwyl adroddiad terfynol gan BDO yn fuan.

**11 Iechyd a Diogelwch**

Mae'r gwaith yn y parc i ddiogelu offer chwarae ar y gweill. Mae llai o gwynion am faw ci erbyn hyn, ond mae'n broblem ger y traeth ac ar lwybr yr

arfordir er bod bin a blwch bagiau i'w gael ar ben y llithrfa.

**12** **Gohebiaeth**

Cadarnhaodd y clerc bod pob dim wedi ei anfon ymlaen drwy ebost wrth eu derbyn.

**13** **Adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol**

CT

Cadarnhawyd bod y wybodaeth wedi ei anfon allan i'r aelodau cyn y cyfarfod. Mae nodi bod taliad ar gael i aelodau (i ddod o gyllideb y cyngor). Cytuno trafod ymhellach yng nghyfarfod nesaf y cyngor cyn ymateb.

**14** **Unrhyw Fater Arall**

Nodwyd bod parcio tu allan i Mynwent Eilian yn broblem gyda cerbydau yn parcio yno am gyfnodau hir ac nid yn ynweld a'r fynwent. Cytuno cynnwys ar agenda'r cyfarfod nesaf i drafod ymhellach.

CT

**15** **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Bydd y cyfarfod cyffredinol nesaf Tachwedd 3, 2020 am 7 o'r gloch

Bu'r cyfarfod orffen am 21.20

**Arwyddwyd**  
**Ian Evans**  
**Cadeirydd**

CET10/2020